Rheoleiddio gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd, seicolegol a gwaith cymdeithasol

# Beth dylech chi ei ddisgwyl gan eich gweithiwr iechyd a gofal proffesiynol



**Canllaw yw hwn i bobl sy’n defnyddio gwasanaethau’r gweithwyr proffesiynol canlynol, neu’n cael eu trin ganddynt.**

- Therapyddion celfyddydol
- Gwyddonwyr biofeddygol
- Ciropodyddion / podiatryddion
- Gwyddonwyr clinigol
- Dietegwyr
- Cyflenwyr cymhorthion clyw
- Therapyddion galwedigaethol
- Ymarferwyr adrannau llawdriniaeth
- Orthoptyddion
- Parafeddygon
- Ffisiotherapyddion
- Ymarferwyr seicoleg
- Prosthetyddion / orthotyddion
- Radiograffyddion
- Therapyddion iaith a lleferydd

**Mae’n rhaid i’r gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol a restrir gyrraedd y safonau a osodir gennym ni yng Nghyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC).**

**I wneud yn siŵr bod rhywun ar ein Cofrestr, ewch i www.hcpc-uk.org/check**

Mae gweithwyr proffesiynol eraill, fel doctoriaid, nyrsys a deintyddion, yn cael eu rheoleiddio gan sefydliadau ar wahân. I weld rhestr lawn o’r rhain, ewch i
**www.hcpc-uk.org/aboutregistration/regulators/healthandcare**



www.hcpc-uk.org

**Mae'r daflen hon yn esbonio'r canlynol:**

- ein rôl;
- beth i'w ddisgwyl gan eich gweithiwr iechyd a gofal proffesiynol;
- beth i'w wneud os byddwch chi'n anfodlon ar y gofal, y driniaeth neu'r gwasanaethau eraill rydych chi'n eu cael.

# Beth yw'r HCPC?

Rydym yn rheoleiddio proffesiynau iechyd a gofal yn y DU. Amddiffyn y cyhoedd yw ein rôl ni. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i bobl fod ar ein cofrestr er mwyn gweithio yn unrhyw un o'r proffesiynau a restrwyd yn y DU.

Nid ydym yn cofrestru pobl oni bai eu bod yn cyrraedd ein safonau, fel bod modd iddynt weithio'n ddiogel ac yn effeithiol. Rydym yn gwirio ansawdd cyrsiau hyfforddi, felly pan fydd rhywun yn cyflawni un sy'n cyrraedd ein safonau, gallwn ei gofrestru. Rydym hefyd yn gwneud yn siŵr bod rhywun sydd wedi hyfforddi y tu allan i'r DU yn cyrraedd ein safonau cyn ein bod yn ei gofrestru.



# Beth dylwn i ei ddisgwyl gan fy ngweithiwr iechyd a gofal proffesiynol?

Mae'n rhaid i bob gweithiwr proffesiynol ar ein Cofrestr gyrraedd ein safonau.

Mae hyn yn golygu gwneud y pethau canlynol.

**Eich trin chi fel unigolyn**

- Parchu eich anghenion, eich dymuniadau a'ch cyfrinachedd.
- Cyfathrebu â chi mewn ffordd hawdd ei deall.

**Bod yn onest ac yn ddibynadwy**

- Rhoi gwybod i chi os bydd pethau'n mynd o chwith o ran eich gofal neu'ch triniaeth.
- Gwneud eu gorau i gywiro pethau.
- Cadw'r berthynas yn broffesiynol

**Blaenoriaethu eich diogelwch chi**

- Gwneud yr hyn maent yn ei wybod a'i ddeall yn unig, neu eich cyfeirio at weithiwr proffesiynol arall.
- Dysgu o gamgymeriadau.
- Lleisio'u barn os ydynt yn poeni am eich diogelwch.



# Beth dylwn i ei wneud os ydw i’n anfodlon ar weithiwr proffesiynol sydd wedi cofrestru â’r HCPC?

Os ydych yn anfodlon ar y gofal neu’r driniaeth a roddwyd i chi, gallwch gwyno i’ch gweithiwr iechyd a gofal proffesiynol, neu’r sefydliad mae’n gweithio iddo. Siaradwch â’r gweithiwr yn gyntaf i weld a oes modd i chi ddatrys y broblem. Mae modd datrys y rhan fwyaf o broblemau drwy wneud hyn.

Efallai y bydd modd i chi gael cefnogaeth i wneud cwyn. Mae’r adran ‘Cysylltiadau’ ar gefn y daflen hon yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol.

# Beth gall yr HCPC ei wneud?

Mae’r rhan fwyaf o weithwyr proffesiynol ar ein Cofrestr yn gweithio’n ddiogel ac yn cyrraedd ein safonau. Ar yr achlysuron prin pan fydd rhywbeth yn mynd o’i le, gall unrhyw un fynegi pryder wrthym.

Gallwn gymryd camau os oes pryderon difrifol ynglŷn â gwaith neu ymddygiad gweithiwr iechyd a gofal proffesiynol. Byddwn yn gwneud hynny drwy ein proses ‘Addasrwydd i Ymarfer’. Os ydym yn canfod nad yw unigolyn wedi cyrraedd ein safonau, gallem gymryd camau, megis dweud wrth weithiwr proffesiynol am weithio mewn ffordd benodol, neu am gyflawni rhagor o hyfforddiant. Yn yr achosion mwyaf difrifol, gallwn atal gweithiwr proffesiynol rhag gweithio.

Mae gwybodaeth am y mathau o achosion y gallwn eu hystyried ar gael yn
**www.hcpc-uk.org/complaints/fitnesstopractise/scope**

**Mae ein manylion cyswllt ar gefn y daflen hon.**

# Cysylltiadau

Efallai y bydd y sefydliadau canlynol o gymorth ar gyfer darparu gwybodaeth os oes angen i chi fynegi pryder.

**Action Against Medical Accidents**
Elusen dros ddiogelwch cleifion a chyfiawnder sy'n darparu cyngor cyfrinachol am ddim ar ôl damwain feddygol. Mae'n cynnwys gweithdrefnau cwyno'r GIG a rhai gofal iechyd preifat, a gall roi cyngor ynghylch atgyfeirio i gyrff rheoleiddio neu gymryd camau cyfreithiol.

**Rhif ffôn: 0845 123 2352**
**Gwefan: www.avma.org.uk**

**Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru**
Gall y sefydliad hwn roi cymorth cyfrinachol am ddim i chi os oes gennych chi broblem neu gŵyn ynglŷn â gwasanaethau'r GIG yng Nghymru.

**Rhif ffôn: 02920 235 558**
**Gwefan: www.wales.nhs.uk/sitesplus/899/home**

**Cyngor ar Bopeth**
Mae'r gwasanaeth hwn yn helpu pobl i ddelio â phroblemau ariannol a chyfreithiol, a phroblemau eraill, drwy ddarparu cyngor a gwybodaeth yn annibynnol ac yn gyfrinachol am ddim.

**Gwefan: www.citizensadvice.org.uk**

**Eiriolaeth dros Gwynion am y GIG yn Lloegr**
Gwasanaeth cyfrinachol ac annibynnol am ddim, sy'n gallu eich helpu i wneud cwynion am y GIG yn Lloegr. Gall hefyd eich cyfeirio at eich Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt i Gleifion lleol, sy'n gallu rhoi cefnogaeth a chyngor cyfrinachol i chi ynghylch materion yn ymwneud ag iechyd.

**Rhif ffôn: 0300 330 5454**
**Gwefan: //nhscomplaintsadvocacy.org**

**Yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd**
Mae'r sefydliad hwn yn cynnal ymchwiliadau annibynnol i gwynion a wneir yn erbyn adrannau Llywodraeth y DU a'u hasiantaethau, yn ogystal â'r GIG yn Lloegr.

**Rhif ffôn: 0345 015 4033**
**Gwefan: www.ombudsman.org.uk**

**Cyngor Cleifion a Chleientiaid yng Ngogledd Iwerddon**
Gall y sefydliad hwn eich helpu i wneud cwyn am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon.

**Rhif ffôn: 0800 917 0222**
**Gwefan: www.patientclientcouncil.hscni.net**

**Gwasanaeth Cyngor a Chefnogaeth i Gleifion yn yr Alban**
Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth gyfrinachol am ddim i unrhyw un sydd am ddarparu adborth, gwneud sylwadau, mynegi pryderon neu wneud cwyn ynghylch y driniaeth a'r gofal a ddarparwyd gan y GIG yn yr Alban.

**Gwefan: www.patientadvicescotland.org.uk**

**Yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol**
Gwasanaeth annibynnol am ddim yw hwn sy'n gallu ymchwilio i gwynion yn erbyn cynghorau a sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau lleol.

**Rhif ffôn: 0300 061 0614**
**Gwefan: www.lgo.org.uk**

## Rhagor o wybodaeth

Health and Care Professions Council
Park House
184 Kennington Park Road
London
SE11 4BU

Rhif ffôn: +44 (0)300 500 6184

Dewch o hyd i ni ar www.facebook.com/hcpcuk

Dilynwch ni ar https://twitter.com/the_hcpc

**I ofyn am gopi o'r ddogfen hon yn Saesneg neu mewn fformat arall, anfonwch e-bost i publications@hcpc-uk.org**

© Health and Care Professions Council 2017
Rhif cyhoeddi 20161212SUG
Cynhyrchwyd y ddogfen hon gan ddefnyddio coed o goedwigoedd cynaliadwy

Crystal Mark 22236
Clarity approved by Plain English Campaign